PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 6 Chwefror 2025 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Karen Edwards (Is-Gadeirydd), Pauline Edwards, James Elson, Jon Harland, Carol Holliday, Brian Jones, Delyth Jones, Cheryl Williams a/ac Huw Williams (Cadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor, ar gyfer eitemau 5 a 6 a'r Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Rhys Thomas, ar gyfer eitemau 7 ac 8.

Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Amgylchedd (TW), Pennaeth y Gwasanaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd (PJ), Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff (GW), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad (EJ), Pennaeth y Gwasanaeth Tai a Chymunedau (LG), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd (MJ), Uwch-swyddog - Cynllunio Strategol a Thai (JA), Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol (GD), Rheolwr y Tîm Prisio ac Ystadau (RE), Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaeth Cymorth Cymunedol (NJ), Swyddog Arweiniol Datblygu Tai (MD), Cydlynydd Craffu (KE), Gweinyddwyr y Pwyllgor (ED ac NH).

Yn arsylwi - y Cynghorydd Andrea Tomlin

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Michelle Blakeley-Walker.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Huw Williams, gysylltiad personol oedd yn rhagfarnu ag eitem 6 ar y rhaglen, sef Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio 2024/29, ac yntau mewn anghydfod ynglŷn â mater parcio yn Sir Ddinbych.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2024.

Materion yn codi - Eitem 5 (tudalen 7) - dywedodd y Cydlynydd Craffu yr ail-hysbysebwyd swydd y Prif Swyddog Cydymffurfiaeth Cynllunio a bod y tîm yn aros am awdurdodiad i lenwi swydd y Swyddog Cydymffurfiaeth.

PENDERFYNWYD- derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2024 a'u cymeradwyo fel rhai cywir.

5 ADOLYGIAD O'R GWASANAETH AILGYLCHU TROLIBOCS A SWYDDOGAETHAU CASGLU GWASTRAFF CYSYLLTIEDIG

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gan atgoffa'r Pwyllgor bod yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn sgil penderfyniad y Cabinet ar 1 Hydref 2024 i neilltuo adnoddau ychwanegol i gyflwyno'r drefn casglu gwastraff newydd.

Yn ogystal â hynny, roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi derbyn cynnig i graffu ar y penderfyniad i newid y trefniadau casglu mewn rhai ardaloedd a chyflwyno trefn Pen Lôn. Cydnabu'r Aelod Arweiniol fod lle i'r gwasanaeth wella, ond dywedodd fod cynnydd wedi'i wneud ers ei gyflwyno ym mis Mehefin.

Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol fod a wnelo'r adroddiad yn bennaf â phenderfyniad y Cabinet i gymeradwyo rhoi £1.299 miliwn yn ychwanegol i'r Gwasanaeth, wedi'i ariannu drwy grantiau a benthyca cyfalaf. Soniwyd bod y Gwasanaeth yn dal yn aros i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r swm y gallai ei gyfrannu.

Ac eithrio'r cyfnodau o dywydd eithafol yn y Sir ddechrau'r flwyddyn, roedd y Gwasanaeth wedi sefydlogi a dod yn fwy cyson, ac roedd pethau'n gwella bob wythnos.

Bwriedid cyflwyno casgliadau Pen Lôn ar gyfer 36 o aelwydydd o blith 47,000 ledled y Sir, a hysbyswyd y preswylwyr dan sylw. Roedd rhai trigolion wedi mynegi pryderon ynglŷn â newid eu gwasanaeth ond roedd gan yr Awdurdod rym i weithredu'r newidiadau hynny dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Aseswyd eiddo yn unol â'r protocolau a gweithdrefnau priodol cyn hysbysu'r trigolion o'r newid.

Soniodd rhai pobl fod y polisi perthnasol yn amwys a dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y polisi hwnnw dan adolygiad. Cydnabu'r Pennaeth Gwasanaeth hefyd na hysbyswyd yr aelodau o'r llythyrau a anfonwyd at y trigolion a dywedodd y dysgid gwers o hynny ar gyfer y dyfodol.

Holodd aelodau a oedd costau llogi cerbydau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y cynllun ariannol cychwynnol. Dywedodd y swyddogion fod arian yng nghyllideb refeniw/gweithredu'r Gwasanaeth i dalu am y costau llogi. Gwnaed pob ymdrech i ddod â chyfnodau llogi'r cerbydau dros dro i ben cyn gynted â phosib.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd Swyddogion:

- Ei bod yn anochel colli rhywfaint o gasgliadau ni waeth pa bynnag ddull a ddefnyddid – yn aml oherwydd pobl yn anghofio rhoi eu biniau allan neu yrwyr newydd yn hepgor un o'r tai ar ei rownd. Pan gyflwynwyd y dull newydd i ddechrau, y broblem oedd methu â chanfod ble'r oedd casgliadau wedi'u colli. Datryswyd y broblem honno bellach ac ymdriniwyd yn weddol chwim â chasgliadau a gollwyd.

- Bu ôl-groniad o ohebiaeth â phreswylwyr ar y system C360 ac arweiniodd hynny at ddefnyddio cyfeiriad e-bost y Dull Gwastraff Newydd i bobl gysylltu.

  Rhagwelid y byddai'r gwasanaeth yn dychwelyd i'r arfer yn yr wythnosau nesaf fel bod modd i breswylwyr roi gwybod am gasgliadau a gollwyd drwy'r Ganolfan Gyswllt neu ar-lein.

- Wrth nodi cartrefi lle'r oedd angen casgliadau Pen Lôn, bu swyddog yn asesu eu mynedfeydd, allanfeydd a mannau troi.

  Roedd angen hefyd ystyried topograffi a maint y cerbydau a ddefnyddir ac asesu risgiau i staff.

- Cynhelid asesiadau ar sail maint y cerbyd a fyddai'n casglu gwastraff ar y rownd fel arfer.

- Roedd Deddf Diogelu'r Amgylchedd yn rhoi'r grym i awdurdodau fynnu bod yr aelwyd yn cyflwyno ei gwastraff mewn man penodol.

- Nid oedd y llythyr a anfonwyd i'r cartrefi dan sylw'n rhoi digon o wybodaeth i'r preswylwyr nac yn egluro'n iawn y sail resymegol ar gyfer newid y gwasanaeth, ac nid oedd yn sôn ychwaith am unrhyw hawl i apelio'r penderfyniad.

- Roedd yno drefn apelio a gellid ailasesu cartrefi, er na fyddai hynny o reidrwydd yn golygu gwyrdroi'r penderfyniad gwreiddiol.

- Os oedd rhywun yn gymwys i gael casgliadau â chymorth, gellid darparu ar eu cyfer – hyd yn oed gyda chasgliadau pen lôn – neilltuwyd y gwasanaeth i'r preswylydd yn hytrach na'r eiddo.

- Os oedd rhywun yn gymwys i gael casgliadau â chymorth a bod y cerbyd arferol ar y rownd yn rhy fawr, byddai angen darparu gwasanaeth pwrpasol.

- Nid oedd y polisi presennol ynghylch casgliadau pen lôn ond yn cyfeirio at ffyrdd heb eu mabwysiadu. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, roedd rhai ffyrdd a fabwysiadwyd yn anaddas ar gyfer y cerbydau penodedig.

- Fel arfer, mater gweithredol fyddai newid y polisi ynghylch casgliadau pen lôn, ond oherwydd sensitifrwydd y sefyllfa rhoes swyddogion sicrwydd yr ymgynghorid ag aelodau o hyn ymlaen.

- Yn achos casgliadau pen lôn (blêr) yn yr AHNE, roedd y preswylydd yn gyfrifol am gyflwyno'r Trolibocs a'i roi o'r neilltu'n ddiymdroi er mwyn lleihau'r

effaith weledol, atal bocsys rhag cael eu torri neu'u dwyn a lliniaru ar effeithiau tywydd garw.

- Er bod y ganolfan gyswllt wedi derbyn 2,195 o alwadau ym mis Rhagfyr 2024, gallai nifer o'r rheiny fod yn alwadau mynych am yr un sefyllfa.

- Ni ellid darparu manylion y cartrefi a nodwyd ar gyfer casgliadau pen lôn oherwydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ond byddai modd rhannu nifer o lonydd yn ward pob un o'r aelodau.

- Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ar gyfer cerbydau newydd. Byddai'r isafswm a ragwelid yn gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng pris dau o gerbydau trydan a dau o rai diesel.

- Adolygid y drefn ar gyfer casglu tecstilau ar y cyd â'r gweithredwr allanol, *Co-options*.

- Ers newid y gwasanaeth ym mis Mehefin 2024 amcangyfrifir fod incwm o tua £750,000 wedi ei dderbyn o ailgylchu gwastraff (heb ei ddilysu). Rhoddwyd trefn newydd ar waith ar gyfer adrodd ynghylch tipio anghyfreithlon. Nid oedd unrhyw awgrym y bu cynnydd mewn achosion o dipio anghyfreithlon yn sgil gweithredu'r gwasanaeth gwastraff newydd.

- Y polisi presennol oedd codi tâl ar breswylwyr am focsys newydd (troli) yn lle rhai oedd wedi torri neu fynd ar goll. Nid oedd y polisi'n cynnwys unrhyw ddisgresiwn ynglŷn â hynny. Os oedd gan breswylydd brawf mai un o'r gweithwyr gwastraff oedd wedi difrodi bocs, fodd bynnag, ni chodid tâl arnynt.

  Hefyd, byddai pobl mewn tai newydd heb Drolibocs yn gyfrifol am dalu £45 i gael un.

- Pe byddai gweithiwr yn canfod bocs halogedig (gyda phethau ynddo na ddylent fod), dylent roi sticer ar y bocs sy'n nodi beth yw'r deunydd dieisiau ac yn ei gofnodi ar y cyfrifiadur yn y cab. Pe byddai rhywun yn halogi bocs yn fynych, cysylltid â'r preswylydd i roi cyfarwyddiadau pendant ynglŷn â sut i waredu eitemau'n iawn.

Wrth sôn am newid y gwasanaeth a chyflwyno casgliadau pen lôn, cyfeiriodd y Cynghorydd Brian Jones at adroddiad i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018 ynglŷn â'r amrywiaeth o ffyrdd a lonydd yn y sir, a rhoddwyd sicrwydd y byddai'r dull arfaethedig yn addas ar eu cyfer. Soniodd yr adroddiad yn benodol ynghylch lonydd eithriadol o gul, a dylid fod wedi gwybod y byddai gofyn am lwybr casglu arbennig.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Amgylchedd y seiliwyd yr adroddiad ar ddamcaniaethau, gan nad oedd y llwybrau newydd wedi'u pennu eto bryd hynny.

Soniwyd sawl gwaith yn ystod y drafodaeth am gyfathrebu gwael gan y Gwasanaeth â phreswylwyr ac aelodau. Rhoes swyddogion sicrwydd fod y Gwasanaeth yn ymrwymo i gyfathrebu'n well.

Wrth ddod â'r drafodaeth i ben, cyfeiriodd y Cadeirydd at yr argymhellion yn yr adroddiad ac ni chredai y gallai'r Pwyllgor eu cymeradwyo. Yn lle hynny, cafwyd cynnig i ddod ag adroddiad gerbron y Pwyllgor ym mis Mai gan gynnwys gwybodaeth am ganran y deunydd ailgylchu a broseswyd a'r cyllid a ddarperid gan Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD:

1. ***Y cyflwynid adroddiad arall i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 15 Mai, ac***

2. ***Y dylid ymgynghori â'r holl aelodau ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y Polisi Casgliadau Pen Lôn.***

6 CYNLLUN BUDDSODDI MEWN MEYSYDD PARCIO 2024 - 2029

Yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Karen Edwards, a fu'n cadeirio ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a gyflwynai'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynnydd y Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio.

Rhoes y Rheolwr Traffig a Chludiant fraslun o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn gyntaf, gan gynnwys:

- Cyflwyno cynllun peilot ar gyfer cartrefi modur/faniau gwersylla, a ddechreuodd fel cynllun i ddarparu lleoedd parcio dros nos cyn datblygu i ddarparu cyfleusterau mwy cynhwysfawr.

  Unwaith y byddai'r cynlluniau'n barod i'w hasesu ar sail dichonolrwydd, cyflwynid y darpar safleoedd i'r Grwpiau Ardal Aelodau perthnasol

- Clustnodi deg o feysydd parcio ledled y sir ar gyfer gosod rhwystrau uchder – canfuwyd na fyddai hynny'n ymarferol mewn tri o'r meysydd parcio oherwydd cyfyngiadau mynediad gan gyrff allanol neu ddiffyg lle i osod clwydi diogel

- Adnewyddu'r maes parcio aml-lawr yn Ninbych, gan gynnwys y system echdynnu mygdarth

- Bwrw ymlaen â chyflwyno trefniadau talu ac arddangos ym Maes Parcio Coetiau Postol, Rhuddlan

- Ar fin rhoi wyneb newydd ar Faes Parcio Lôn y Post

- Gwaith ym Maes Parcio Canolog y Rhyl i atgyweirio ac adnewyddu'r cylchoedd dur a rhwydi a ddefnyddid i atal colomennod rhag nythu

- Gosod rhwystrau uchder newydd ym Maes Parcio'r Tŵr Awyr yn y Rhyl

- Arolwg o gyflwr asedau meysydd parcio ar y gweill ynghyd â gwaith trwsio angenrheidiol ym Maes Parcio Aml-lawr Dinbych.

Roedd y Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio'n cynnwys cynigion ar gyfer yr ail flwyddyn,
sef blwyddyn ariannol 2025-26. Newidiwyd y rhaglen drwy ychwanegu gwaith arfaethedig i roi wyneb newydd ar y maes parcio yng Ngallt Melyd, er mwyn braenaru'r tir ar gyfer cyflwyno taliadau posib am barcio.

Wrth ateb cwestiynau'r Aelodau, rhannodd y swyddogion y wybodaeth ganlynol:

- Darperid y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwir gostau i'r aelodau ddiwedd y flwyddyn ariannol (Ebrill 2025)

- Hysbysebid y swydd wag ar gyfer Uwch-beiriannydd yn fuan

- Nid oedd meysydd parcio dan reolaeth y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn rhan o'r Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio

- Defnyddid defnyddiau wedi'u hailgylchu os oedd modd wrth roi wyneb newydd ar feysydd parcio, er mwyn defnyddio cyn lleied â phosib o agregau crai

- Cynyddodd yr incwm o feysydd parcio wedi cyflwyno'r taliadau newydd yn 2024, ond nid cymaint â'r disgwyl

- Ymgynghorid â'r aelod lleol, Cyngor y Dref a thrigolion a busnesau lleol ynghylch dechrau codi tâl ym maes parcio Gallt Melyd

- Cynhaliwyd astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer man i fysus ollwng teithwyr hanner ffordd i lawr Stryd Fawr Prestatyn. Ni fu'r aelodau a busnesau lleol o blaid y cynnig. Pe byddai aelodau'n dymuno ailgychwyn y drafodaeth, gellid cyfeirio'r mater at y Grŵp Ardal Aelodau

- Roedd dyhead i ychwanegu mwy o fannau gwefru cerbydau trydan ym meysydd parcio'r Sir

- Y tîm Gwasanaethau Fflyd oedd yn rheoli mannau gwefru cerbydau trydan. Gwneid ymholiadau ynghylch cyfraddau defnyddio gyda'r nod o rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â Grwpiau Ardal Aelodau ddwywaith y flwyddyn

- Roedd yr Awdurdod yn mynd ati i adennill costau unrhyw ddifrod i'r rhwystrau gan gerbydau uchel drwy drefnu gorchymyn gwaith drwy bolisïau yswiriant y gyrwyr.

Atgoffwyd yr aelodau y cyflwynid adroddiad ynghylch taliadau meysydd parcio i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 13 Mawrth.

PENDERFYNWYD- nodi Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio 2024-2029.

7 CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH TAI A DIGARTREFEDD SIR DDINBYCH

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau'r adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw). Roedd a wnelo'r adroddiad â darparu mwy o gartrefi a thai fforddiadwy, atal digartrefedd a gwella ansawdd tai cymdeithasol.

Tynnodd Pennaeth y Gwasanaeth Tai a Chymunedau sylw'r Pwyllgor i'r ffaith bod y Cyngor llawn wedi cymeradwyo'r adroddiad yn 2020. Roedd y Cyngor yn arfer dull Un Cyngor wrth fynd i'r afael â digartrefedd ac roedd amryw wasanaethau'n cydweithio i gyflawni'r uchelgeisiau ym maes tai ledled y Sir. Cydnabuwyd bod yr adroddiad yn fanwl iawn. Gofynnwyd i'r Pwyllgor cyflwyno cynigion i graffu ar unrhyw feysydd penodol yn yr adroddiad y dymunai eu hystyried yn fwy treiddiol.

Wrth ateb cwestiynau'r Aelodau, rhannodd y swyddogion y wybodaeth ganlynol:

- Defnyddid tai rhent preifat os nad oedd tai cymdeithasol ar gael – roedd tai'n brin ar gyfer unigolion a theuluoedd mawr yn benodol

- Ar adegau, prynwyd tai mawr i'w cynnwys yn stoc tai'r Cyngor ac addaswyd tai cyngor ar gyfer teuluoedd mawr

- Bu gan y Gwasanaeth Digartrefedd erioed bortffolio o eiddo ar brydles – Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, eiddo cymunedol a'r sector rhentu preifat

- Yn hanesyddol, bu'r sector preifat yn fodlon caniatáu prydlesi tymor byr. Roedd hynny'n fuddiol iddynt hwy a'r Cyngor gan ei fod yn darparu llety mwy addas na Gwely a Brecwast a bod modd adennill y budd-dal tai yn llawn

- Roedd Llywodraeth Cymru'n ariannu Cynllun Lesio yn y Sector Rhentu Preifat a oedd yn darparu prydlesau mwy hirdymor rhwng 5 ac 20 o flynyddoedd - ac yn aml byddai pobl oedd yn ddigartref yn byw yn y tai hynny am byth

- Roedd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) wedi rhoi mwy o bwysau ar landlordiaid gan arwain at nifer helaeth o achosion o droi pobl allan heb fai a llawer o landlordiaid preifat yn rhoi'r gorau i'r farchnad dai. Roedd y ffigyrau hynny'n gostwng bellach

- Byddai'r Gwasanaeth yn ystyried prynu hen dai cyngor pan y'u gwerthid ar y farchnad agored. Cynhelid arolygon o gyflwr y tai i ganfod faint fyddai'r gost o'u prynu a sicrhau eu bod yn bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru.

  Roedd hi fel arfer yn fanteisiol i'r Cyngor eu prynu, yn enwedig os oeddent yn dai pâr neu'n fflatiau mewn blociau'r oedd yr Awdurdod yn berchen arnynt, gan y gellid rheoli'r adeilad cyfan yn fwy effeithlon

- Roedd gwerthwyr tai lleol yn gwybod fod gan yr Awdurdod ddiddordeb mewn prynu hen dai Cyngor ac anogwyd yr aelodau i gadw golwg ar dai yn eu

hardaloedd hwy a ddeuai ar y farchnad. Prynwyd un ar bymtheg o unedau ers 2022, tua chwech ymhob blwyddyn.

PENDERFYNWYD- bod y Pwyllgor yn derbyn a chymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Tai a Digartrefedd.

8 PROSES WAREDU TAI'R CYNGOR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau'r adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a esboniai'r rhesymau dros benderfynu gwerthu tai cyngor yn y portffolio tai. Nodwyd nad oedd hynny bron byth yn digwydd.

Eglurodd y Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol bod y Gwasanaeth yn gyndyn o werthu unrhyw eiddo yn ei bortffolio ond ei bod weithiau'n gwneud synnwyr yn economaidd i werthu eiddo mewn ardaloedd heb alw mawr am dai neu pan oedd angen buddsoddi arian sylweddol er mwyn bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru. Ni phenderfynid gwerthu eiddo ond pan oedd pob ffordd bosib o'i gadw wedi methu.

Cyfeiriwyd at atodiad 2 i'r adroddiad wrth egluro i'r Pwyllgor y gallai'r broses fod yn hirfaith yn aml iawn a dangos yr amryw gamau a gymerwyd o glustnodi eiddo gwarged, bodloni'r amryw ofynion a'i werthu yn y pen draw. Câi Aelodau Lleol eu cynnwys yn y broses a'u gwahodd i ddod i weld unrhyw eiddo y bernir ei fyd yn warged yn eu wardiau hwy.

Arolygwyd yr holl eiddo a glustnodwyd i'w werthu (atodiad 3) er mwyn cael y prisiau gorau ar y farchnad. Ar ôl penderfynu gwerthu'r eiddo, roedd yn rhaid cwblhau'r broses yn effeithlon gan fod yr Awdurdod yn gyfrifol am dalu treth y cyngor ar gyfer yr adeiladau gwag.

Os bernid nad oedd hi'n ymarferol yn economaidd i wella cyflwr eiddo er mwyn bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru, roedd hynny fel arfer oherwydd diffyg cyfleusterau cyfoes ynddo. Roedd angen sicrhau cydbwysedd rhwng dyletswydd yr Awdurdod i ddarparu cartrefi diogel – er enghraifft, archwilio cyfarpar nwy a'i gynnal a'i gadw – a pharodrwydd y tenant i roi mynediad i'r Awdurdod i wneud addasiadau eraill nad oeddent o reidrwydd yn dymuno eu cael.

Ail-fuddsoddwyd incwm a gafwyd o werthu eiddo, sef y derbyniad cyfalaf, wrth geisio prynu ychwaneg o dai mewn ardaloedd â mwy o alw amdanynt.

Diolchodd y Pwyllgor i'r swyddogion am yr adroddiad, gan gymeradwyo'r broses a ddilynwyd wrth werthu eiddo nad oedd yn economaidd ei gadw ac ail-fuddsoddi'r arian wrth brynu tai mewn ardaloedd â mwy o alw amdanynt.

PENDERFYNWYD- bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad ynghylch Proses Gwerthu tai'r Cyngor.

9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu'r rhaglen waith yn atodiad 1a.

Hysbyswyd y Pwyllgor y bu gwall yn y pecyn dogfennau ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 27 Mawrth a bod yr adroddiad ynghylch Rhaglen Adfywio'r Rhyl a'r Trefniadau Llywodraethu wedi'i hepgor. Cywirwyd hynny bellach. Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu y câi'r mater ei drafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

Roedd yno bedair o eitemau ar y rhaglen ar gyfer 27 Mawrth a thri ohonynt yn rhai swmpus. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ohirio'r drafodaeth ynghylch Gwresogi Mewn Argyfwng tan y cyfarfod dilynol (15 Mai) fel y gellid ystyried y materion eraill yn llawn.

PENDERFYNWYD- yn amodol ar y newidiadau uchod, nodi'r Rhaglen Waith.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Ni chafwyd unrhyw sylwadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.